**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2880 (Cy.276)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i awdurdodau lleol lunio cynigion ar gyfer trefniadau gweithredol (y mae swyddogaethau penodol yr awdurdod yn gyfrifoldeb gweithrediaeth o danynt) neu, yn achos awdurodau penodol, gweithredu trefniadau amgen. Yn achos y trefniadau gweithredol, rhaid i weithrediaeth yr awdurdod lleol fod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11 o'r Ddeddf honno.

Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi awdurdod lleol, sy'n gweithredu trefniadau gweithredol neu amgen, i lunio cynigion i newid y trefniadau hynny.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth iddo lunio cynigion, ystyried sut y gall y cynigion fod o gymorth wrth sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd mae ei swyddogaethau yn cael eu harfer, gan dalu sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeitholrwydd.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod rhaid cael cydsyniad y maer, os bydd awdurdod lleol sydd â maer etholedig yn bwriadu newid ei drefniadau gweithredol, oni bai bod y cynigion ond yn ymwneud â newid gweithrediad neu swyddogaethau pwyllgor gorolygu a chraffu neu

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2880 (W.276)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part II of the Local Government Act 2000 provides for local authorities to draw up proposals for the operation of executive arrangements (under which certain functions of the authority are the responsibility of an executive) or, in the case of certain authorities, for the operation of alternative arrangements. In the case of executive arrangements, the local authority's executive must take one of the forms specified in section 11 of that Act.

These Regulations enable a local authority, which is operating executive or alternative arrangements, to draw up proposals to change those arrangements.

Regulation 3 requires a local authority in drawing up proposals, to consider how the proposals may assist in securing continuous improvement in the way in which its functions are exercised, having regard to economy, efficiency and effectiveness.

Regulation 4 provides that a local authority must comply with directions given by the National Assembly for Wales for the purposes of these Regulations.

Regulation 5 provides that, where a local authority which has an elected mayor proposes to change its executive arrangements, the consent of the mayor is required unless the proposals only involve changing the operation or functions of an overview and scrutiny

is-bwyllgor o'r math hwn o bwyllgor.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer cael cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn achosion penodol.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol cael penderfyniad gan awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod hwnnw weithredu trefniadau gwahanol.

Mae rheoliad 8 yn darparu i gopïau o ddogfen sy'n nodi'r darpariaethau ar gyfer trefniadau gwahanol fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol.

committee or of a sub-committee of such a committee.

Regulation 6 provides for the consent of the National Assembly for Wales to be obtained in certain cases.

Regulation 7 requires a resolution of the local authority in order for that authority to operate different arrangements.

Regulation 8 provides for copies of a document setting out the provisions of the different arrangements to be available for public inspection at the local authority's principal office.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2880 (Cy.276)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *20 Tachwedd 2002* |
| *Yn dod i rym* | *25 Tachwedd 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 30(1), 33(7), 105(2) and 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 25 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**Cynigion**

**2**.-(1) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithredol ("trefniadau gweithredol presennol"), yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2000 (gweithredu a rhoi cyhoeddusrwydd i drefniadau gweithredol), p'un a ydynt yn cael eu cymhwyso gan reoliad 7(1) o'r Rheoliadau hyn ai peidio, lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau gweithredol ("trefniadau gweithredol gwahanol") sy'n wahanol i'r trefniadau gweithredol presennol ar yr amod nad yw'r cynigion yn cynnwys ffurf wahanol ar weithrediaeth.

(2) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen ("trefniadau amgen presennol"), yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 33(2) o Ddeddf 2000 (gweithredu trefniadau amgen), p'un a ydynt yn cael eu

(a) 2000 p.22.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2880 (W.276)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *20th November 2002* |
| *Coming into force* | *25th November 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to it by sections 30(1), 33(7), 105(2) and 106(1) of the Local Government Act 2000(**a**).

**Name, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) The name of these Regulations is the Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002 and they shall come into force on 25th November 2002.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) In these Regulations, "the 2000 Act" means the Local Government Act 2000.

**Proposals**

**2**.-(1) A local authority which is operating executive arrangements ("existing executive arrangements"), by virtue of a resolution under section 29(1) of the 2000 Act (operation of, and publicity for, executive arrangements), whether or not as applied by regulation 7(1) of these Regulations, may draw up proposals for the operation of executive arrangements ("different executive arrangements") which differ from the existing executive arrangements provided that the proposals do not involve a different form of executive.

(2) A local authority which is operating alternative arrangements ("existing alternative arrangements"), by virtue of a resolution under section 33(2) of the 2000 Act (operation of alternative arrangements), whether or

(a) 2000 c.22.

cymhwyso gan reoliad 7(2) o'r Rheoliadau hyn ai peidio, lunio cynigion ar gyfer gweithredu trefniadau amgen ("trefniadau amgen gwahanol") sy'n wahanol i'r trefniadau amgen presennol ar yr amod nad yw'r cynigion yn cynnwys ffurf ar drefniadau amgen sy'n wahanol i'r hyn a bennir yn rheoliad 4 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**a**).

**Llunio cynigion**

**3**. Wrth lunio cynigion o dan reoliad 2, rhaid i awdurdod lleol ystyried i ba raddau y bydd y cynigion, os cânt eu rhoi ar waith, yn debygol o fod o gymorth wrth sicrhau gwelliant parhaus yn y dull y mae swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer, gan dalu sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Cyfarwyddiadau**

**4.** Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion y rheoliadau hyn.

**Cydsyniad maer etholedig i gynigion**

**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), os yw awdurdod lleol yn llunio cynigion o dan reoliad 2(1), ac o dan y trefniadau gweithredol presennol mae'r weithrediaeth ar y ffurf a bennir yn adran 11(2) neu (4) o Ddeddf 2000 (maer a gweithrediaeth gabinet neu faer a gweithrediaeth rheolwr cyngor), ni chaiff yr awdurdod lleol roi'r cynigion ar waith heb gydsyniad ysgrifenedig y maer etholedig o dan y trefniadau gweithredol presennol.

(2) Nid yw cydsyniad maer etholedig yn ofynnol o dan baragraff (1) os yw'r trefniadau sy'n destun y cynigion a grybwyllir yn y paragraff hwnnw yn wahanol i'r trefniadau gweithredol presennol o ran gweithrediad a swyddogaethau pwyllgor gorolygu a chraffu neu is-bwyllgor o'r math hwnnw o bwyllgor.

**Cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**6**.-Os llunnir cynigion o dan reoliad 2 ac sy'n cynnwys newid i -

(a) rôl neu gyfrifoldebau'r weithrediaeth neu'r cyngor,

(b) rôl neu strwythur pwyllgorau gorolygu a chraffu,

rhaid i'r awdurdod lleol anfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r cynigion a rhaid iddo beidio â'u rhoi ar waith heb gydsyniad ysgrifenedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) O.S. 2001/2284 (Cy.173).

not as applied by regulation 7(2) of these Regulations, may draw up proposals for the operation of alternative arrangements ("different alternative arrangements") which differ from the existing alternative arrangements provided that the proposals do not involve a form of alternative arrangements which is different from that specified in regulation 4 of the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**a**).

**Drawing up proposals**

**3**. In drawing up proposals under regulation 2, a local authority must consider the extent to which the proposals, if implemented, are likely to assist in securing continuous improvement in the way in which the authority's functions are exercised, having regard to a combination of economy, efficiency and effectiveness.

**Directions**

**4**. A local authority must comply with any directions given by the National Assembly for Wales for the purpose of these Regulations.

**Elected mayor's consent to proposals**

**5.**-(1) Subject to paragraph (2), if a local authority draws up proposals under regulation 2(1) and under existing executive arrangements the executive takes the form specified in section 11(2) or (4) of the 2000 Act (mayor and cabinet executive or mayor and council manager executive), the local authority may not implement the proposals without the written consent of the elected mayor under the existing executive arrangements.

(2) The consent of the elected mayor is not required under paragraph (1) if the arrangements which are the subject of the proposals mentioned in that paragraph differ from the existing executive arrangements only in respect of the operation and functions of an overview and scrutiny committee or of a sub-committee of such a committee.

**Consent of the National Assembly for Wales**

**6**. Where proposals are drawn up under regulation 2 which involve an alteration to -

(a) the role or the responsibilities of the executive or the council, or

(b) the role or structure of overview and scrutiny committees,

the local authority must send to the National Assembly for Wales a copy of the proposals and must not implement them without the consent in writing of the National Assembly for Wales.

(a) S.I. 2001/2284 (W.173).

**Gofynion penderfyniad**

**7**.-(1) Rhaid i is-adran (1) o adran 29 (gweithredu trefniadau gweithredol) fod yn gymwys at ddiben gweithredu trefniadau gweithredol gwahanol fel y mae'n gymwys at ddiben gweithredu trefniadau gweithredol yn wreiddiol.

(2) Rhaid i is-adran (2) o adran 33 (gweithredu trefniadau amgen) fod yn gymwys at ddibenion gweithredu trefniadau amgen gwahanol fel y mae'n gymwys ar ddiben gweithredu trefniadau amgen yn wreiddiol.

**Cyhoeddusrwydd ar gyfer trefniadau**

**8.** Pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu trefniadau gweithredol neu amgen gwahanol, rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pasio penderfyniad o'r fath, sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau gwahanol ar gael yn ei brif swyddfa i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob awr resymol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

20 Tachwedd 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**Requirements for a resolution**

**7**.-(1) Subsection (1) of section 29 (operation of executive arrangements) shall apply for the purpose of operating different executive arrangements as it applies for the purpose of operating executive arrangements originally.

(2) Subsection (2) of section 33 (operation of alternative arrangements) shall apply for the purpose of operating different alternative arrangements as it applies for the purpose of operating alternative arrangements originally.

**Publicity for arrangements**

**8**. Where a local authority has resolved to operate different executive or alternative arrangements, the local authority must, as soon as practicable after passing such a resolution, secure that copies of a document setting out the provisions of the different arrangements are available at its principal office for inspection by members of the public at all reasonable hours.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

20th November 2002

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 2880 (Cy.276)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 2880 (W.276)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090587-3

9 780110 905877

**£2.00**

W161/11/02 ON